



Comisiwn
Democratiaeth a
Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

Adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol

Awdurdodau Tân ac Achub

cdffc.llyw.cymru

cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair	3
Pennod 1: Cefndir	4
Tabl 1: Taliadau i aelodau ATA 2026-27.....	4
Pennod 2: Ystyriaethau	5
Tabl 2: Cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru	6
Tabl 3: Sgoriau bandio Llywodraeth Cymru	6
Pennod 3: Ymgynghoriad	8
Pennod 4: Penderfyniad.....	9
Tabl 4: Cyfraddau arfaethedig ar gyfer aelodau ATA	9

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg gan Trosol.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

4ydd Llawr

Adeilad Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

Rhagair

Mae'r adroddiad atodol hwn yn amlinellu penderfyniad terfynol y Comisiwn ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wrth i'r cyrff hynny symud i drefniadau llywodraethu newydd. Bydd y newidiadau hyn, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn sefydlu byrddau llai o faint, tebyg i weithrediaeth, sy'n cynnwys un cynghorydd gweithredol o bob awdurdod lleol cyfansoddol ynghyd â lleiafrif o aelodau annibynnol a benodir trwy gystadleuaeth gyhoeddus.

Wrth wneud y penderfyniad terfynol hwn, mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cyfrifoldebau a fydd yn gysylltiedig â'r rolau hyn, y dystiolaeth a oedd ar gael i ni, a'r safbwyntiau a gyflwynwyd yn ystod ymgynghoriad. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a ymatebodd, yr oedd eu cynrychiolaethau wedi ein helpu i ystyried y materion.

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylai'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer rolau Awdurdod Tân ac Achub perthnasol gyd-fynd â chyfraddau cyrff cyhoeddus Band 3 Llywodraeth Cymru, gan wneud taliadau'n ddyddiol a darparu ar gyfer taliadau hanner diwrnod a fesul awr lle y bo'n briodol.

Bwriedir i'r trefniadau hyn helpu i weithredu'r model llywodraethu newydd ar ôl etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2027. Er bod yr adroddiad hwn yn cynnwys ein penderfyniad terfynol, ni fydd yn sefydlog. Bydd y Comisiwn yn adolygu'r penderfyniad hwn yn rhan o adroddiadau blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol yn y dyfodol, yn yr un ffordd ag yr adolygwn benderfyniadau eraill sydd o fewn ein cylch gwaith, gan ystyried profiad o weithredu ac unrhyw ddatblygiadau ehangach i rolau a chyfrifoldebau aelodau Awdurdod Tân ac Achub ac uwch rolau eraill ar draws y teulu llywodraeth leol.

Karen Jones
Cadeirydd

Pennod 1: Cefndir

1. Yn dilyn materion a nodwyd yn nhrefniadau llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i newid y ffordd y mae'r cyrff allweddol hyn yn cael eu cynnal.
2. Yn rhan o hyn, mae cyfansoddiad eu byrddau'n cael ei newid. Ar hyn o bryd, mae ganddynt rhwng 24 a 28 o aelodau, a enwebwyd gan yr awdurdod lleol o fewn eu hardal. Bydd hyn yn newid i un aelod o bob awdurdod lleol o fewn ardal yr ATA, a lleiafrif o aelodau annibynnol, i'w penodi gan Lywodraeth Cymru trwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'n rhaid i'r aelodau awdurdod lleol fod yn gynghorwyr gweithredol, hynny yw, arweinydd cyngor, dirprwy arweinydd neu aelod o'r cabinet. Mae'r newidiadau wedi cael eu deddfu gan Orchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfuno) (Cymru) 2026¹.
3. Bydd rôl aelodau ATA yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLLC) i greu disgrifiadau rôl newydd ar gyfer rolau aelodau.
4. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd y tri ATA yn symud i'r model hwn ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2027.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) benderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau o fewn y trefniadau newydd hyn. Mae'r adroddiad atodol hwn yn amlinellu ein penderfyniadau.
6. Ffurfiwyd y tri ATA yng Nghymru, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru, yn rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Ar hyn o bryd, mae byrddau ATA yn cynnwys aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau yn ardal pob gwasanaeth tân ac achub. Mae cydnabyddiaeth ariannol aelodau'n tybio y byddant yn gweithio 22 diwrnod y flwyddyn, ac mae cydnabyddiaeth ariannol aelodau cyffredin yn gysylltiedig â chydabyddiaeth ariannol prif gynghorwyr cyffredin.
7. Mae cydnabyddiaeth ariannol cadeiryddion ATAau wedi'i chysylltu ar hyn o bryd â chyflog uwch Band 3 prif gyngor. Mae dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau a swyddi uwch cyflogedig eraill yn gysylltiedig â chyflog Band 5. Amlinellir manylion llawn lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau ATAau ar gyfer 2026-27 yn Nhabl 1 isod. Penderfynwyd ar y cyfraddau hyn yn Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol y Comisiwn ar gyfer 2026-27².

Tabl 1: Taliadau i aelodau ATA 2026-27

ATAau	Swm
Cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin	£2,968
Cadeirydd	£13,490
Dirprwy gadeirydd (pan fydd wedi'i benodi)	£7,177
Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall	£7,177

¹ [Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub \(Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfuno\) \(Cymru\) 2026](#)
² [Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27 | CDFfC](#)

Pennod 2: Ystyriaethau

8. Fe wnaethom ystyried nifer o ffynonellau tystiolaeth wrth wneud ein penderfyniad.
 - a. Briff ar ddiwygio ATAAu a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
 - b. Disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau ATA diwygiedig, a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
 - c. Methodoleg a chyfraddau cyflog cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
 - d. Disgrifiad rôl aelodau Bwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol.
 - e. Ymgynghoriad â rhanddeiliaid o 3 Gorffennaf i 14 Awst 2026, a ddisgrifir yn y bennod nesaf.
9. Bydd yr ATAAu wedi'u had-drefnu yn fyrddau gweithredol, sy'n gwneud penderfyniadau am weithredu a llywodraethu gwasanaethau tân ac achub yn ardal gyfan yr ATA. Nid yw aelodau awdurdod lleol yno i gynrychioli buddiannau eu hardaloedd awdurdod lleol. Disgwylir iddynt gyflawni'r un rôl yn yr un ffordd ag aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Ystyriwn ei bod yn briodol y dylai'r ddau gael eu cydnabod yn ariannol yn yr un ffordd. Mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddir ar gyfer cyrff eraill y mae aelodau gweithredol awdurdod lleol yn eistedd arnynt, ond credwn fod y sefyllfa ar gyfer ATAAu yn ddigon gwahanol i gyrff eraill lle nad ydynt yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol, y mae aelodau gweithredol awdurdod lleol yn eistedd arnynt fel arfer fel cynrychiolwyr eu hawdurdod lleol.
10. Nid oes gan rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yr un trefniadau â Chymru, felly mae'n anodd cymharu'n uniongyrchol. Mae gan Loegr nifer o awdurdodau tân ac achub yn seiliedig ar siroedd, y mae eu haelodau wedi'u henwebu gan awdurdod lleol. Mae gan Ogledd Iwerddon a'r Alban un bwrdd yr un. Mae gan Gymru dri awdurdod tân ac achub rhanbarthol.
11. Fe wnaethom ystyried y disgrifiad rôl a'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelod o Fwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban o gymharu â'r disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau Cymru. Er bod rhai gwahaniaethau, mae llawer o debygrwydd hefyd. Telir £321.87 y dydd i aelodau'r Alban, ynghyd â threuliau.
12. Mae rolau'r Alban a Chymru yn rhannu'r themâu canlynol:
 - a. arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
 - b. llywodraethu, sicrwydd a chraffu;
 - c. stiwardiaeth ariannol;
 - d. cydraddoldeb, cynhwysiant a safonau moesegol;
 - e. atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; ac
 - f. ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad.
13. Maen nhw'n gwahaniaethu o ran y canlynol:
 - a. model llywodraethu – mae Cymru yn defnyddio model rhanbarthol gyda mwyafrif o uwch aelodau awdurdod lleol, a lleiafrif o benodeion Llywodraeth Cymru. Mae model yr Alban ar gyfer corff cenedlaethol;
 - b. prosesau penodi a dethol – bydd Cymru yn defnyddio cymysgedd o enwebeion o aelodau gweithredol awdurdod lleol a phenodiadau gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Alban yn defnyddio proses gystadleuol ar gyfer yr holl aelodau, a gwneir penodiadau gan Lywodraeth yr Alban;
 - c. cwrmpas ac ehangder y rôl – mae CLILC a Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o ddisgrifiadau rôl sy'n ymdrin â'r ystod o rolau a chyfrifoldebau, tra bod enghraifft yr Alban yn rôl aelod bwrdd unedig; ac
 - d. ymrwymiad amser – disgwylir i aelodau Bwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban wasanaethu am bum niwrnod y mis ar gyfartaledd, am gyfnod sefydlog o bedair

- blynedd. Nid yw ATAAu Cymru wedi pennu eu hymrwymiaadau amser eto, a Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar gyfnod swydd yr aelodau.
14. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Penderfynir ar hyn gan gyfeirio at nifer o ffactorau, a threfnir gyrff yn bum band yn seiliedig ar eu cyllideb, eu trefniadau staffio, cymhlethdod eu gwaith a lefel risg ac amlygiad pob un. Amlinellir eu cyfraddau presennol yn Nhabl 2 isod.
 15. Nid yw dyrannu gyrff i fandiau'n ymarfer manwl. Lluniwyd cynllun Llywodraeth Cymru i fod yn syml, yn gymesur ac mor wrthrychol â phosibl. Er mwyn osgoi cymhlethdod diangen, neilltuir gyrff i fandiau gan ddefnyddio sgoriau o 1 i 5 yn erbyn pedwar maen prawf allweddol, fel yr amlinellir yn Nhabl 3 isod.

Tabl 2: Cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru

	Sgôr o Dabl 3 isod	Rôl	Cyfraddau Dyddiol
Band 5	17	Cadeirydd	£494
		Dirprwy Gadeirydd	£435
		Aelod Bwrdd	£378
Band 4	14-16	Cadeirydd	£407
		Dirprwy Gadeirydd	£378
		Aelod Bwrdd	£348
Band 3	9-13	Cadeirydd	£348
		Dirprwy Gadeirydd	£322
		Aelod Bwrdd	£292
Band 2	6-8	Cadeirydd	£265
		Dirprwy Gadeirydd	£234
		Aelod Bwrdd	£205
Band 1	4-5	Cadeirydd	£118
		Dirprwy Gadeirydd	£108
		Aelod Bwrdd	£95

Tabl 3: Sgoriau bandio Llywodraeth Cymru

Maen Prawf	Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5
Gwariant gros	Cyllideb llai na £5m	Cyllideb rhwng £5m a £75m	Cyllideb rhwng £75m a £150m	Cyllideb dros £150m	Amherthnasol
Niferoedd staff (CALI)	Llai na 50	50-99	100-499	500 neu fwy	Amherthnasol

Cymhlethdod y rôl	Corff cynggori; tasg unigol.	Corff gweithredol cynggori neu dasg unigol mwy cymhleth.	Corff gweithredol; gwaith cymhleth; rhywfaint o sensitifrwydd.	Corff gweithredol; gwaith cymhleth iawn; materion anodd neu sensitif mynych.	Corff gweithredol; gwaith cymhleth iawn ag elfen ryngwladol, yn cynnwys ystod eang o bartneriaid, yn nodedig y sector preifat; materion anodd neu sensitif mynych.
Risg/amlygiad	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn	Amherthnasol

16. Casglwyd gwybodaeth am gyllidebau a threfniadau staffio ATAAu o wefan StatsCymru³. Yn ôl ein hasesiad, mae pob ATA yn sgorio 3 am wariant gros, 4 am niferoedd staff, 3 am gymhlethdod y rôl a 3 am risg/amlygiad, gan roi cyfanswm sgôr o 13 iddynt, a fyddai'n eu gosod ar frig Band 3 ar gynllun Llywodraeth Cymru.

³ Tân: [Personél \(cyfrif pennau\) yn ôl math cyflogaeth a'r flwyddyn ariannol | StatsCymru](#)
[Gwariant alldro referniw yn ôl awdurdod a gwasanaeth | StatsCymru](#)
[Gwariant alldro cyfalaf yn ôl awdurdod a gwasanaeth | StatsCymru](#)

Pennod 3: Ymgynghoriad

17. Cyhoeddwyd ein hadroddiad drafft ar 3 Gorffennaf 2026 ar gyfer ymgynghoriad chwe wythnos, a ddaeth i ben ar 14 Awst 2026.
18. Gofynnwyd i brif gynghorau, ATAAu, a CLILC roi eu hadborth ar ein penderfyniadau arfaethedig. Derbyniwyd chwe ymateb, drwy e-bost at remuneration@dbcc.gov.wales a chan ddefnyddio arolwg ar-lein. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r rhai a ymatebodd.
19. Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau'n ofalus cyn llunio ei benderfyniad terfynol. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.
20. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y cyfraddau'n briodol, ac ni awgrymwyd dewisiadau amgen. Crybwyllodd rhai ein bwriad i gysylltu'r cyfraddau â chyfraddau cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru, gan nad yw'r rhain wedi cael eu cynyddu'n flynyddol. Cydnabyddwn y mater, a nodwn fod ein cynnig yn cynnwys bwriad i uwchraddio yn y dyfodol.
21. Nodwyd pryder ynglŷn â defnyddio cyfradd ddyddiol yn hytrach na'r gyfradd flynyddol a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r defnydd o gyfraddau dyddiol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol yn berthnasol i nifer o fathau o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys aelodau cyfetholedig presennol ATAAu. Gan nad yw'r trefniadau hyn ar waith eto, a bod gan bob ATA hyblygrwydd i osod gofynion amser gwahanol ar ei aelodau, nid oes gennym lawer o ddata i seilio cyfradd flynyddol arno, a chredwn fod cyfradd ddyddiol yn briodol. Byddwn yn monitro hyn yn rhan o waith yn y dyfodol ar effaith y penderfyniad.
22. Roedd safbwyntiau cymysg ynglŷn â ph'un a ddylai aelodau sy'n gynghorwyr dderbyn cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol ai peidio. Roedd rhai o'r farn bod aelodaeth ag ATA yn rhan o rôl yr aelod unigol ar weithrediaeth y cyngor, tra bod eraill o'r farn ei bod yn ddigon ar wahân a gwahanol i gyfiawnhau cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol. Ystyriodd y Comisiwn ddwy ochr y ddadl a daeth i'r casgliad mai'r olaf oedd y dull cywir. Rydym yn cydnabod tra bod aelodaeth ATAAu yn berthnasol i'w rolau yn y cyngor, byddai unigolion a chaiff ei henwebu fel aelodau i rhedeg yr ATA yn ychwanegol i'w rol yn y cyngor, yn lle cynrychioli ei cyngor.
23. Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr adborth a gafwyd ac wedi dod i'r casgliad y bydd y penderfyniad drafft yn cael ei fabwysiadu pan fydd pob ATA yn symud i'r model llywodraethu newydd. Mae wedi'i gynnwys ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.
24. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei ailystyried yn rhan o waith ehangach y Comisiwn ar y fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol rolau uwch. Bydd hyn yn ystyried unrhyw newidiadau i natur rolau aelodau gweithredol, wrth i Lywodraeth Cymru ystyried gwaith rhanbarthol cynyddol ar draws y teulu o sefydliadau llywodraeth leol.

Pennod 4: Penderfyniad

25. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, rydym wedi penderfynu bod cyfradd cyrff cyhoeddus Band 3 Llywodraeth Cymru ar lefel briodol ar gyfer aelodau bwrdd ATAau yng Nghymru.
26. Bu'n rhaid i ni benderfynu a ddylid ei thalu fel cyfradd ddyddiol neu gyfradd flynyddol. Rhoddir ymreolaeth i ATAau benderfynu pa mor aml i gyfarfod ac at ba ddibenion. Fe allai hyn arwain at rywfaith o amrywiaeth rhwng y tri ATA, sy'n golygu ei bod yn anodd pennu cyfradd flynyddol, felly rydym wedi dod i'r casgliad fod cyfradd ddyddiol yn fwyaf priodol.
27. Bydd gan ATAau ymreolaeth hefyd i sefydlu pwyllgorau aelodau sy'n adrodd i'w bwrdd. Dylai cadeiryddion y pwyllgorau hynny gael eu talu ar yr un gyfradd â dirprwy gadeiryddion y bwrdd.
28. Cydnabyddwn na fydd yr holl waith a wneir gan aelodau ATA yn cyfateb i ddiwrnod llawn o waith ar y tro. Felly, cynigiwn hefyd, yn ogystal â'r gyfradd ddyddiol, fod ATAau yn cael yr hyblygrwydd i dalu hanner hyn ar gyfer hyd at 4 awr o waith mewn unrhyw ddiwrnod unigol, a chyfradd fesul awr, yn debyg i'r ffordd y penderfynwn ar gyfraddau ar gyfer rolau eraill o fewn ein cylch gwaith.
29. Amlinellir y cyfraddau a gynigiwn yn Nhabl 4.

Tabl 4: Cyfraddau arfaethedig ar gyfer aelodau ATA

	Cyfradd ddyddiol	Cyfradd hyd at 4 awr	Cyfradd fesul awr
Cadeirydd	£348	£174	£43.50
Dirprwy neu Gadeirydd Pwyllgor	£322	£161	£40.25
Aelod Bwrdd	£292	£146	£36.50

30. Bwriadwn adolygu'r cyfraddau hyn yn flynyddol yn yr un ffordd â chydabyddiaeth ariannol arall sydd o fewn ein cylch gwaith, yn rhan o'n hadroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol.
31. Bydd y cyfraddau hyn yn berthnasol i aelodau ATA p'un a ydynt yn aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru neu'n aelodau gweithredol prif gynghorau.